Campws Cynradd / Primary Campus

# Ysgol Bro Hyddgen









# 2 Gair o Groeso

## Ymweld â'r Ysgol

**Mae croeso i rieni / ofalwyr ymweld à'r ysgol ond gofynnwn yn garedig i chi ffonio ymlaen llaw er mwyn i ni allu trefnu i chi gyfarfod â'r aelodau perthnasol o staff.**



## Annwyl Rieni / Ofalwyr

Mae'n bleser cyflwyno'r llawlyfr hwn i'ch sylw. Un o'r penderfyniadau pwysicaf y mae'n rhaid i chi, fel rhieni, ei wneud yw dewis yr ysgol fwyaf addas i'ch plentyn. Yn naturiol, mae pob rhiant eisiau ysgol dda i'w plant, ond maent hefyd yn chwilio am ysgol lle bydd eu plentyn yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus. Credwn y gallwn gynnig yr elfennau yma i gyd yn Ysgol Bro Hyddgen.

Mae'r ysgol yn gymuned groesawgar a hapus, lle mae disgwyl i ddisgyblion weithio'n galed ac ymddwyn yn dda. Rydym yn deall bod gan blant wahanol gryfderau ac mae croeso i bob unigolyn yma. Mae ein niferoedd yn cynyddu bob blwyddyn ond rydym yn parhau yn ddigon bychan i allu rhoi gofal i bob plentyn a darparu ar gyfer anghenion yr unigolyn.

Rydym yn falch iawn o gyrhaeddiad ein disgyblion, gyda 100% o blant BL 2 2017 yn ennill y Dangosydd Cyfnod Sylfaen a 93% o blant CA2 yn ennill y Dangosydd Pynciau Craidd. Gallaf eich sicrhau bod athrawon yr ysgol yn darparu gwersi o ansawdd uchel a phrofiadau addysgol gwerthfawr. Rydym hefyd yn falch iawn o'n llwyddiant ym myd cerddoriaeth, ar y meysydd chwarae, yn Eisteddfodau Cenedlaethol yr Urdd ac yn y nifer o glybiau sydd yn agored i bob disgybl.

Mae perthynas agos rhwng y cartref â'r ysgol yn bwysig, ac mae croeso cynnes i chi gysylltu â'r ysgol ar unrhyw adeg. Rydym yn rhannu gwybodaeth gyda chi am gynnydd eich plentyn mewn nosweithiau rhieni ddwywaith y flwyddyn ac mewn adroddiad ysgrifenedig llawn ar ddiwedd y flwyddyn. Mae eich plentyn chi yn bwysig i ni ac rydym yn credu y dylai'r amser yn yr ysgol fod yn fuddiol a gwerth chweil. Pe byddech yn penderfynu anfon eich plentyn i Ysgol Bro Hyddgen, rwyf yn gwbl hyderus y byddwch wedi gwneud y penderfyniad cywir. Edrychaf ymlaen at eich cyfarfod yn fuan, ac os oes gennych unrhyw gwestiwn neu bryder, mae croeso i chi gysylltu â mi yn yr ysgol unrhyw amser.

Yn ddiffuant

Dafydd M B Jones

Pennaeth

# Welcome

## Visiting the School

**Parents / carers are welcome to visit the school but we ask you to phone first so that we can arrange for you to meet with the relevant member of staff.**



## Dear Parents / Carers

It is a pleasure to present you with the school handbook. Choosing the right school for your child is one of the most important decisions a parent / carer will have to make. Parents want a good education for their children, they also want their child to feel safe and secure and, above all else, happy. At Ysgol Bro Hyddgen we believe that we can offer all of these.

This school is a welcoming, happy community where pupils are expected to work hard and behave well. We welcome and understand the different strengths of all our pupils. Since we are a small school we can cater for each pupil's needs and care for the individual. We aim to provide high quality care and opportunities to all our pupils.

We take particular pride in the attainment of our pupils, with 100% of the Year 2 pupils achieving the Foundation Phase Indicator in the summer of 2017 and 93% of Year 6 children achieving the Core Subject Indicator. I can assure you the staff at the school will go out of their way to provide high quality lessons and valuable educational experiences throughout the academic year. We are also proud of our musical achievements and our successes at the Urdd Eisteddfodau, on the playing fields and in the numerous opportunities and clubs that are open to all.

A close relationship between home and school is important and parents are welcome to contact the school at any time. We update parents on the progress of their children twice a year through written reports and parents' evenings. We care for our pupils and we believe that their time at school should be rewarding and fulfilling. Should you choose to send your child to Ysgol Bro Hyddgen, I am confident that you will have made the right decision. I look forward to meeting you soon, and if you have any queries or concerns please contact me at the school at any time.

Yours sincerely

Dafydd M B Jones

Headteacher

# 4 Ein Hysgol

## Nod yr Ysgol:

**Datblygu pob unigolyn i'w botensial llawn, yn addysgiadol ac yn gymdeithasol, fel y gall gymryd rhan flawngar yn y gymdeithas a bod yn aelod gwerthfawr ohoni.**



## Annwyl Rieni / Ofalwyr

Rwyf yn falch iawn o gael eich croesawu'n aelod o gymuned yr ysgol. Hyderaf y bydd eich cyswllt â'r ysgol yn un hapus, diddorol a phrysur. Gobeithio y byddwch fel rhieni yn chwarae rhan gyflawn yn addysg eich plentyn gan gyfrannu at y bartneriaeth hanfodol rhwng yr ysgol a'r cartref. Manteisiwch ar pob cyfle a mwynhewch pob eiliad!



Haf ap Robert

Pennaeth Cynorthwyol

## Llawlyfr Campws Cynradd Ysgol Bro Hyddgen

Adolygwyd Gorffennaf 2018

Pennaeth Cynorthwyol: Haf ap Robert

Rhif Ffon: 01654 704200

Rhif Ffax: 01654 702219

E-bost: office@brohyddgen.powys.sch.uk

Safle gwe: https://www.brohyddgen.powys.sch.uk/

### Croeso cynnes i Gampws Cynradd Ysgol Bro Hyddgen

Pennaeth: Mr Dafydd Jones
Pennaeth Cynorthwyol: Mrs Haf ap Robert
Rhif Ffon: Machynlleth 01654 704200
Rhif Ffax: Machynlleth 01654 702 219
E.Bost: office@brohyddgen.powys.sch.uk
Safle gwe: www.brohyddgen.powys.sch.uk

# Our School

## The School's Aim:

**To develop each pupil's full potential both educationally and socially so they can play a full part in society and become a**



## Dear Parents/Carers

I am delighted to welcome you as a member of the school community. I trust that your association with the school will be happy, interesting and engaging. I hope that you as parents will play a full part in your child's education by contributing to the essential partnership between school and home. Take advantage of every opportunity and enjoy every moment!

Haf ap Robert

Assistant Headteacher

## Primary Campus Handbook Ysgol Bro Hyddgen

Edited August 2018

Assistant headteacher: Haf ap Robert

Phone Number: 01654 704200

Fax Number 01654 702219

Email: office@brohyddgen.powys.sch.uk

Website: https://www.brohyddgen.powys.sch.uk/en/

A warm welcome to Ysgol Bro Hyddgen's Primary Campus!

Headteacher: Mr Dafydd Jones
Assistant Headteacher: Mrs Haf ap Robert
Phone Number: Machynlleth 01654 704200
Fax Number: Machynlleth 01654 702 219
Email: office@brohyddgen.powys.sch.uk
Website: www.brohyddgen.powys.sch.uk

# 6 Y Campws a Chludiant

Mae'r ysgol yn Ysgol Gymunedol Sirol ar gyfer plant o 4 - 18 oed dan ofal Awdurdod Addysg Powys.



## Safle'r Ysgol

Saif yr ysgol ar gyrion tref Machynlleth, ar Ffordd Y Drenewydd heb fod ymhell o'r Orsaf Dân. Mae'n safle delfrydol ar gyfer y campws cynradd gan fod yma diroedd helaeth gyda golygfeydd hyfryd i lawr yr holl ffordd at gloc y dref. Agorwyd yr adeilad presennol yn 1994, ac ar hyn o bryd mae 185 o ddisgyblion ar y gofrestr. Mae adeilad yr ysgol yn cynnwys dwy atriwm hardd sy'n ardaloedd dysgu agored lle gall dysgwyr o wahanol ddosbarthiadau gyd-ddysgu a chyd-chwarae yn ystod amseroedd chwarae gwlyb.

Dros y blynyddoedd mae'r Pwyllgor Eco-Sgolion wedi datblygu tir yr ysgol gan dderbyn Grant Loteri £10,000 *Llefydd i Natur* i osod llwybrau, creu gwarchodfa natur ar ffurf Gardd Eden, plannu gwrychoedd a choedydd a chreu gweirglodd flodau gwyllt. Mae perllan gennym ar dir yr ysgol yn ogystal â gardd lysiau lle tyfir amrywiaeth eang o berlysiau a llysiau, gyda chefnogaeth Mach Maethlon.

## Cynllun Teithio i'r Ysgol

Dydy hi ddim yn hawdd parcio yng nghyffuniau'r ysgol. Rydym felly yn annog rhieni i gerdded, beicio, i deithio ar fws y dref neu i rannu ceir er mwyn hebrwng eu plant i'r ysgol. Am gyngor sut i osgoi gorddefnydd o'r car, gweler hefyd: http://www.powys.gov.uk/cy/roads-transport-and-parking/teithio-llesol/

Cyngor yr Adran Prif-ffyrdd a Phrif Swyddog Iechyd a Diogelwch Powys yw bod angen annog rhieni i yrru'n araf a phwyllog ger yr ysgol, gan ofalu parcio mewn mannau priodol. Ein bwriad yw cadw pob plentyn yn ddiogel. Ni ddylid parcio ym maes parcio'r staff oni bai eich bod wedi cael caniatâd gan y Pennaeth neu'r Pennaeth Cynorthwyol.

## Cludiant

Mae darpariaeth cludiant tacsi i'r ysgol dan ofal Awdudod Addysg Powys. Gall rhai plant hefyd fanteisio ar Gynllun Seddi Gweigion yr Awdurdod, mewn rhai amgylchiadau. Mae'r ffurflenni ar gael o'r ysgol ac yn llawlyfr yr Awdurdod.

# Campus and

The school is a County Community School for 4 - 18 year old pupils under the auspices of Powys Education Authority.



## The School Site

The school is situated on the outskirts of the town of Machynlleth, on Newtown Road, close to the Fire Station. It is an ideal site for the primary campus because there are extensive grounds with lovely views all the way down to the town clock. The present building was opened in 1994, and there are 185 pupils currently on the roll. The school building boasts two beautiful atria, which are open learning areas where learners from different classes can learn together and where pupils play together during wet playtimes.

Over the years the Eco-Schools Committee has developed the school grounds after receiving a £10,000 *Places for Nature* Lottery Grant to create paths, a nature reserve in the form of a Garden of Eden, planting hedgerows and a woodland and creating a wildflower meadow. We have an orchard in the school grounds as well as a kitchen garden, where we grow a wide variety of herbs and vegetables with the support of Mach Maethlon.

## School Travel Plan

Parking in the vicinity of the school is difficult. We therefore urge parents to walk, cycle, to travel by bus or to share cars when escorting children to school. For advice on how to avoid overuse of the car, see also:

http://www.powys.gov.uk/cy/roads-transport-and-parking/teithio-llesol/

The advice of Powys Highways Department and the Health and Safety Senior Officer is to encourage parents to drive slowly and cautiously in the vicinity of the school, ensuring parking in appropriate areas only. Our intention is to keep all children safe. Parking in the staff car park is not allowed unless permission has been given by the Head / Assistant Headteacher.

## Transport

The provision of taxi transport to school is under the care of Powys Education Authority. It may be possible for some children to make use of the Authority's Spare Seat Scheme under some circumstances. The forms are available from the school and are also published in the Authority's handbook.

The school is a county community school for children from 4-18 under the care of a Powys Education Authority.

# 8 Iechyd a Diogelwch

**Mae gan yr ysgol 'Gytundeb Cartref / Ysgol' sy'n nodi'r hyn a ddisgwylir gan yr ysgol o safbwynt ymrwymiad disgyblion a rhieni i gefnogi ethos yr ysgol, yn ogystal ag ymrwymiad yr ysgol i ddarparu'r addysg orau bosibl**



## Iechyd a Diogelwch

Cymerir pob gofal o bob plentyn tra byddant yn yr ysgol. Mae'r ysgol yn ymhyfrydu yn ei threfniadau gofal yn ymwneud â lles disgyblion. Mae hon yn elfen gref o'r ysgol.

Mae'r ysgol yn adolygu trefniadau iechyd a diogelwch ar gyfer disgyblion a staff yn rheolaidd.

Os bydd plentyn yn sâl neu wedi cael damwain ar iard yr ysgol byddwn yn cysylltu'n syth â'r rhieni. Cedwir cofnodion llawn o bob damwain, ac os bydd niwed i'r pen byddwn yn ffonio'r rhiant ac yn danfon copi o'r ffurflen Cymorth Cyntaf adref atoch.

### Cymorth Cyntaf

Mae canran uchel o staff wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf elfennol a chwech aelod enwebedig o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant Cymorth Cyntaf

## Trefniadau ar Gyfer Ymwel-wyr

Rhaid i bob ymwelydd ddod i mewn trwy brif fynedfa'r ysgol ac arwyddo yn y Llyfr Ymwel-wyr.

Ni cheir mynediad nes i'r ysgrifennyddes agor y drws.

Disgwylir i ymwelwyr wisgo cerdyn adnabod ymwelwyr, ac arwyddo eto pan fyddant yn gadael yr adeilad.

Mae system larwm lladron yn ei le.

Trefnir ymarferion tân bob hanner tymor.

# Health and Safety



The school has a Home / School Agreement which sets out what is expected by the school in respect of the commitment of pupils and parents to support the school's ethos, as well as the school's commitment to provide the



## Health and Safety

Every care is taken of every child while they are in school. The school is proud of its care arrangements in relation to the welfare of pupils. This is a strong feature of the school life.

The school reviews its health and safety arrangements for pupils and staff on a regular basis.

If a child is ill or has had an accident on the school yard, we will liaise directly with parents. Full records are kept of all accidents and, in the case of a head injury, we will telephone the parent and send you a copy of the first aid form.

### First Aid

A high percentage of the staff has completed basic first aid training and six nominated members of staff have completed specialist first aid training.

## Arrangements for Visitors

All visitors must enter through the main entrance of the school and sign the Visitors' Book.

There is no access until the Secretary opens the door.

Visitors are expected to wear a visitor ID card, and sign again when they leave the building.

There is a Burglar Alarm system in place.

Fire drills are arranged every half term.

# 10 Amcanion yr Ysgol



Nod yr ysgol yw creu awyrgylch hapus ac ysgol ble y gwerthfawrogir pob disgybl, gan annog pob un i fod yn unigolyn chwilfrydig, yn ddysgwr annibynnol a fydd yn awyddus i ddysgu am y byd mawr diddorol o'i gwmpas, a chymryd rôl gyfrifol yn ei gymdeithas leol, a'r gymuned fyd-eang.



## Amcanion cyffredinol yr ysgol

- Sicrhau bod pob disgybl yn teimlo'n hapus a diogel yn yr ysgol.
- Sicrhau bod pob plentyn yn awyddus i lwyddo.
- Sicrhau bod pob plentyn yn datblygu i'w lawn botensial ym mhob agwedd o'r cwricwlwm.
- Sicrhau bod pob plentyn yn parchu plant eraill, yn parchu staff ac eiddo'r ysgol a'r gymuned.
- Sicrhau ymddygiad derbyniol gyda phwyslais ar gwrteisi a sgiliau empathi da.
- Sicrhau bod cysylltiad a chydweithredu da rhwng yr ysgol a'r rhieni / ofalwyr.
- Sicrhau bod pob dysgwr yn ymwybodol o bwysigrwydd codi arian at elusennau

## Ethos a Gwerthoedd

Pedwar peth sy'n bwysig iawn ar y Campws Cynradd:

- Gwneud ein gorau glas ymhob sefyllfa
- Parchu a chefnogi ein gilydd
- Dwyieithrwydd a dinasyddiaeth byd-eang
- Sicrhau bod pawb yn ddiogel a hapus

# The Aim of the School

## The School's General Objectives

- Ensure that all pupils feel safe and happy in school.
- Ensure that all children are keen to succeed.
- Ensure that all children develop to their full potential in all aspects of the curriculum.
- Ensure that all children respect other children, respect the staff and show respect to school and community property.
- Ensure acceptable behavior with an emphasis on courtesy and good empathy skills.
- Ensure a good relationship and good co-operation between the school and parents/carers.
- Ensure that all learners are aware of the importance of raising money for charities.



The school aims to create a happy atmosphere where all pupils are valued, encouraging them to be inquisitive individuals and independent learners who will be keen to learn about the fascinating world around them, and to take a responsible role in their local society, and in the global community.

## Ethos and Values

There are four things that are very important on the Primary Campus:

- To do our very best in each situation
- To respect and support each other
- Bilingualism and global citizenship
- To ensure that everyone is safe and happy



# 12 Trefniadau Dyddiol

## Clwb ar ôl Ysgol

Darperir y gwasanaeth gan Brosiect Cymunedol Plant Machynlleth, sydd wedi'i leoli yn Nhŷ Melfed, yn union tu ôl yr ysgol. Bydd staff y Clwb yn casglu'r disgyblion am 3.20 pm

Rhaid cofrestru eich plentyn ymlaen llaw, trwy gysylltu â 01654 702933






## Oriau'r Ysgol

Mae'r ysgol yn dechrau'n brydlon am 9.00 o'r gloch y bore ac yn gorffen am 3.20 p.m. Cenir y gloch am 9.00 fel y gall y disgyblion ffurfio llinell drefnus.

Ni ddisgwylir i blant fod ar dir yr ysgol cyn 8.50, ar wahân i aelodau'r Clwb Brecwast sy'n gallu cyrraedd ar ôl 8.15. Dylai disgyblion Adran y Cyfnod Sylfaen fod o dan ofal oedolyn cyfrifol wrth gyrraedd yr ysgol, ac wrth fynd adref. Ni chaniateir i ddisgyblion Y Cyfnod Sylfaen fynd adref heb gwmni oedolyn.

## Amserlen yr Ysgol:

**CA2**

- Sesiwn Dysgu'r Bore: 9.00 - 12.50
- Amser Chwarae: 10.20 - 10.40
- Trac Dal i Fnd: 11.50 - 12.00
- Amser Cinio: 12.50 - 13.40
- Sesiwn Dysgu'r P'nawn: 13.40 - 15.20

**Y Cyfnod Sylfaen**

- Sesiwn Dysgu'r Bore: 9.00 - 12.15
- Amser Tocyn a Chwarae: 10.20 - 10.45
- Amser Cinio: 12.15 - 13.20
- Amser Glanhau Dannedd: 13.20 - 13.30
- Sesiwn Dysgu'r P'nawn: 13.30 - 15.20
- Amser Chwarae'r P'nawn: 14.20 - 14.35

# Daily Routine

## School Hours

School begins promptly at 9.00 o'clock in the morning and finishes at 3.20 p.m. The bell is rung at 9.00 so that pupils can line up in an orderly fashion.

Children are not expected to be on the grounds of the school before 8.50, apart from members of the Breakfast Club who can arrive after 8.15. Foundation Phase pupils should be under the care of a responsible adult on arrival at school and on the way home. Foundation Phase pupils are not allowed to go home

## School Timetable

**KS2**

- Morning Teaching Session: 9.00 - 12.50
- Play Time: 10.20 - 10.40
- Running Track: 11.50 - 12.00
- Lunchtime: 12.50 - 13.40
- Afternoon teaching session: 13.40 - 15.20

**The Foundation Phase**

- Morning Teaching Session: 9.00 - 12.15
- Play Time: 10.20 - 10.45
- Lunchtime : 12.15 - 13.20
- Cleaning teeth time: 13.20 - 13.30
- Afternoon session: 13.30 - 15.20
- Afternoon playtime: 14.20 - 14.35

## After School Club

The service is provided by Machynlleth Children's Community Project, based at Tŷ Melfed, just behind the school. The Club's staff will collect the pupils at 3.20pm.

Your child must be registered in advance; this can be done by contacting 01654 702933.






# 14 Polisi Derbyn

## Polisi Derbyn Ysgol Bro Hyddgen a Threfniadau Trosglwyddo



### Polisi Derbyn Ysgol Gynradd

Ers mis Medi 2017 derbynnir disgyblion i'r ysgol yn llawn amser ar ddechrau'r tymor ar ôl eu pen-blwydd yn 4 oed yn unol â pholisi Awdurdod Addysg Powys.

Gall yr ysgol dderbyn hyd at 37 disgybl ymhob blwyddyn addysgol ar draws y ddwy ffrwd. Os bydd mwy na 37 yn ymgeisio am le, yna bydd rhaid dilyn Polisi Derbyn Awdurdod Powys.

Am fanylion pellach dylid cysylltu â 01597 826455

Mae'r manylion llawn ar gael yn Llawlyfr yr Awdurdod, ac fe ddosberthir hwnnw i ddarpar rieni trwy'r Cylch Meithrin lleol a'r Feithrinfa Gymunedol. Mae copïau hefyd ar gael yn swyddfa'r ysgol.

Bydd plant sy'n mynychu Cylch Meithrin Machynlleth a'r Feithrinfa Gymunedol yn ymweld â'r ysgol fel rhan o drefniadaeth Cyswllt â Lleoliadau 4-5 oed.

Os bydd disgybl yn symud i'r ardal, neu am ymgeisio am le yn yr ysgol ar hanner tymor ysgol rhaid cysylltu â Swyddog Derbyn Awdurdod Addsyg Powys yn Llandrindod: 01597 826455

https://customer.powys.gov.uk/article/1158/Apply-for-school-place

Os bydd disgybl ag anghenion addysgu arbennig am ymgeisio am le yn yr ysgol, dylid cysylltu â'r Pennaeth, ynghyd â chysylltu â Simon Anderson, Rheolwr Anghenion Dysgu Ychwanegol Awdurdod Powys.

Bydd disgyblion Blwyddyn 6 yn trosglwyddo yn naturiol i Flwyddyn 7 ar y Campws Uwchradd. Mae cysylltiad agos rhwng y ddau gampws sy'n cynnwys Polisi Pontio a rhaglen drosglwyddo drwyadl. Trefnir dyddiau pontio drwy gydol yr amser bydd y plant yn Blwyddyn 6 a threfnir wythnos o weithgareddau / gwersi yn ystod yr Wythnos Bontio a gynhelir ym mis Gorffennaf.

Trefnir cyfarfodydd penodol i drosglwyddo gwybodaeth am bob disgybl gydag Arweinydd Blwyddyn 7.

# Admissions Policy

## Ysgol Bro Hyddgen Admission Policy and Transfer Arrangements



## Primary School Admissions Policy

In accordance with Powys Education Authority policy, since September 2017 pupils are admitted to school full time at the beginning of the term following their 4th birthday.

The school can admit up to 37 pupils in each academic year across the two streams. If more than 37 apply for a place, then the Powys Authority Admissions' Policy must be followed.

For further details please contact 01597 826455

Full details are available in the Authority's Handbook, which is distributed to prospective parents through the local *Cylch Meithrin* and the Community Nursery. Copies are also available from the school office.

Children who attend *Cylch Meithrin* Machynlleth and the Community Nursery, visit the school as part of the transition arrangements into full time education.

If a pupil moves into the area, or wishes to apply for a place at the school during the school term, the Powys Education Authority's Admission Officer must be contacted at Llandrindod Wells: 01597 826455

https://customer.powys.gov.uk/article/1158/Apply-for-school-place

If a pupil with special educational needs wishes to apply for a place at the school, the Assistant Headteacher should be contacted as well as Simon Anderson, Additional Learning Needs manager at Powys Educational Authority.

Year 6 pupils will transfer seamlessly to Year 7 on the Secondary Campus. There is a close link between the two campuses which includes a Transition Policy and a comprehensive transfer programme. Transition days are provided for pupils during Year 6 and a week of activities / lessons is provided during the Transition Week which is held in July.

Specific meetings are arranged with the Year 7 Leader to transfer information about each pupil.

# 16 Presenoldeb

Cyfanswm presenoldeb ar gyfer y flwyddyn 2017 - 2018 oedd 94%

Targed yr ysgol eleni yw 95%




## Presenoldeb

Dilynir polisiau ERW, ac anogir y rhieni i werthfawrogi pwysigrwydd sicrhau presenoldeb llawn. Ni fydd y pennaeth yn awdurdodi gwyliau yn ystod tymor yr ysgol os bydd presenoldb y plentyn wedi syrthio o dan 90% yn y flwyddyn flaenorol. Ni ellir awdurdodi gwyliau am fwy na 10 diwrnod ysgol mewn blwyddyn. Bydd unrhyw wyliau tu hwnt i hyn yn cael eu cyfrif fel absenoldebau anawdurdodedig.

Mae'r Pennaeth Cynorthywol yn monitro Presenoldeb pob dysgwr ac os bydd problem bydd yn cysylltu â Swyddog Lles Powys.

Disgwylir i rieni gysyllytu â'r ysgol cyn 9.30 i esbonio unrhyw absenoldeb o'r ysgol.

## Defnyddio'r Gymraeg

Mae'r Iaith Gymraeg yn greiddiol i werthoedd ac awyrgylch yr ysgol, gan fod mwyafrif y disgyblion yn derbyn addysg cyfrwng Cymraeg, tra bod y disgyblion sy'n mynychu'r ffrwd Saesneg yn mwynhau ac yn elwa o'r Gymraeg fel ail iaith ac yn dilyn y **Cwricwlwm Cymreig.** Mae Gofynion Cyffredin y Cwricwlwm Ysgol yng Nghymru yn nodi: **'Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion, lle y bo hynny'n briodol, i ddatblygu a chymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o nodweddion diwylliannol, economaidd, amgylcheddol, hanesyddol ac ieithyddol Cymru.'**

Y Gymraeg yw prif gyfrwng bywyd a gwaith y ffrwd Gymraeg. Dechreuir cyflwyno Saesneg yn ffurfiol yn Blwyddyn 3. Sicrheir bod y disgyblion yn datblygu i fod yn gwbl ddwyieithog erbyn iddynt adael yr ysgol.

Cynhelir gwasanaeth ysgol gyfan bob dydd Gwener yn ddwyieithog. Cynhelir gwasanaeth adran bob dydd Llun yn ddwyieithog.

# Attendance

Total attendance for the year 2017 - 2018 was 94%

Target for this year is 95% attendance



## Attendance

The school has adopted ERW attendance policies, and parents are encouraged to appreciate the importance of ensuring full attendance. The head teacher will not authorise holidays during the school term if the child's attendance has fallen below 90% in the previous academic year. No more than 10 school days may be authorised as holidays in a year. Any holidays above this are counted as unauthorised absences.

The Assistant Headteacher monitors the attendance of all pupils, and will contact the Powys Welfare Officer if there are concerns.

Parents are expected to contact the school before 9.30am to explain any absence from school.

## The Use of the Welsh Language

The Welsh Language is central to the values and atmosphere of the school, as most of the pupils receive Welsh medium education, while the pupils attending the English stream benefit and enjoy Welsh as a second language and follow the *Curriculum Cymreig.* The Common Requirements of the School Curriculum in Wales provide that: **'Pupils should be given opportunities, where appropriate, to develop and apply knowledge and understanding of the cultural, economic, environmental, historical and linguistic characteristics of Wales.' .**

In the Welsh medium stream the Welsh language is the main medium of life and work. English is formally introduced in Year 3. Pupils will develop to be fully bilingual by the time they leave the school. Bilingual whole-school assemblies are held every Friday. A bilingual Departmental Assembly Service is held every Monday.

# Cwricwlwm yr ysgol




Cwricwlwm yr Ysgol



## Cwricwlwm yr ysgol

Yr ydym yn addysgu yn unol â gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol, ond rydym yn darparu profiadau sy'n llawer iawn ehangach na hyn. Cynllunir y cwricwlwm gan ddysgu trwy themâu gan ganolbwyntio ar ddatblygiad ysbrydol, moesol, meddyliol, cymdeithasol, corfforol ac emosiynol pob plentyn.

Cynllunir gwaith gwahaniaethol ar gyfer dysgwyr ag anghenion addsygol arbennig, gan gynnwys dysgwyr mwy abl a thalentog.

Gellir gweld y dogfennau cynllunio trwy drefniant â'r Pennaeth / Pennaeth Cynorthwyol.

## Iaith

Mae Iaith yn elfen hollol ganolog i addysg pob dysgwr. Bydd yr ysgol yn meithrin agwedd gadarnhaol trwy gynllunio ar gyfer amrywiaeth o brofiadau bywiog a diddorol gan ddatblygu pedair elfen: Gwrando, Siarad, Darllen ac Ysgrifennu

## Gwrando

Mae'r gallu i wrando a dilyn cyfarwyddiadau yn sgil holl bwysig ynghyd â'r gallu i wrando ac ymateb yn briodol mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd megis parau, grwpiau, dosbarth cyfan neu ysgol gyfan.

## Siarad

Bydd yr ysgol yn canolbwyntio ar ddatblygu gallu pob plentyn i siarad yn glir, yn ddealladwy ac yn hyderus mewn amrywiaeth o gyd-destunau.

Os bydd anhawsterau gall y Pennaeth Cynorthwyol neu'r ALNCO gyfeirio plant at wasanaeth Therapi Lleferydd y sir am asesiad a chyngor.

## The School Curriculum

We teach in accordance with the requirements of the national curriculum, but we provide experiences that are much wider than these. The curriculum is designed thematically, focusing on the spiritual, moral, cognitive, social, physical and emotional development of each child.

Differentiated work is designed for learners with special needs, including MAT (More Able and Talented) learners.

The planning documents can be viewed by arrangement with the Headteacher / Assistant Head.

### Language

Language is a central element to the education of all learners. The school will foster a positive attitude through planning for a variety of lively and interesting experiences in the development of four components: listening, speaking, reading and writing.

### Listening

The ability to listen and follow directions is an all-important skill, along with the ability to listen and respond appropriately in a variety of situations such as pairs, groups, in front of the class or the whole school.

### Speaking

The school will focus on developing each child's ability to speak clearly, coherently and confidently in a variety of contexts.

If there are difficulties the Headteacher may make a referral to the County's Speech Therapy



The School Curriculum



# 20 Darllen ac Ysgrifennu



## Llyfrgell yr Ysgol

Mae llyfrgell gynhwysfawr a deniadol yn yr ysgol.  Mae Cyngor yr Ysgol a'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon wedi cydweithio dros nifer o flynyddoedd i ddatblygu'r llyfrgell. Bydd gwirfoddolwyr o'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon yn gweithio'n ddyddiol yn y llyfrgell o 9.00 - 9.30.




## Darllen

Mae'r ysgol yn rhoi pwyslais ar godi safonau darllen yn y Cynllun Gwella Ysgol. Mae'r gallu i ddarllen yn hyderus yn hollol greiddiol i'r addysg. Rhaid medru darllen yn llwyddiannus i fedru casglu gwybodaeth a dysgu. Mae'r ysgol wedi buddsoddi mewn cynlluniau sy'n canolbwyntio ar ymwybyddiaeth o ffonics. Yn y ffrwd Gymraeg defnyddir *Y Daith Ddarllen* ac yn y ffrwd Saesneg defnyddir *Letters and Sounds.* Disgwylir i bob disgybl ddarllen bob nos, a gofynnir i rieni a dysgwyr gofnodi'r darllen yn y Llyfrau Cofnodi. Mae'r ysgol hefyd yn trefnu sesiynau *Darllen Dan Arweiniad* sy'n rhan ganolog o waith y dosbarth.

## Ysgrifennu

Anogir pob plentyn i ysgrifennu at wahanol bwrpasau a chynulleidfaoedd. Defnyddir cynllun *PENPALS* er mwyn dysgu'r disgyblion sut I ffurfio llythrennau'n gywir o'r dechrau'n deg. Mae hon yn rhaglen ysgol gyfan sy'n annog dysgwyr i ymhyfrydu yn eu llawysgrifen



# Reading and Writing

## Reading

The school places emphasis on raising reading standards in the School Improvement Plan. The ability to read with confidence is absolutely central to education. Learning to read successfully is essential to being able to gather information and learn. The school has invested in schemes which focus on phonic-awareness. In the Welsh stream, *Y Daith Darllen* is used and the English stream uses *Letters and Sounds.* Each pupil is expected to read every night, and parents and learners are asked to record the reading in the Reading Record Book. The school also organises *Darllen Dan Arweiniad* (Guided Reading) sessions that form an integral part of the work of the class.

## Writing

Each child is encouraged to write for different purposes and audiences. The PENPALS scheme is used to teach pupils to form letters correctly from the outset. This is a whole school programme which encourages learners to be proud of their handwriting.



## School Library

The school has a comprehensive and attractive library. The School Council and the Parents and Teachers Association have worked together over many years to develop the library. Volunteers from the Parents and Teachers Association work daily in the library from 9.00 - 9.30.



# 22 Cwricwlwm yr ysgol



Mathemateg

Gwyddoniaeth

Astudiaethau amgylcheddol



## Rhifedd / Mathemateg

Nod yr ysgol yw datblygu agwedd bositif tuag at fathemateg trwy ddysgu strategaethau penodol ar gyfer gwaith rhif. Defnyddir NUMICON yn Y Cyfnod Sylfaen fel modd gweledol ac effeithiol iawn o ddysgu Mathemateg a Rhifedd. Ceisir addysgu'r dysgwyr i feddwl yn glir ac yn rhesymegol gan addasu'r strategaethau a ddysgwyd at amrywiaeth o sefyllfaoedd. Ceir amrywiaeth o adnoddau megis ***Dewch i Feddwl*** a ***CAME*** sy'n annog y dysgwyr i weithio'n annibynnol. Mae'r ysgol hefyd yn darparu rhaglenni ymyrraeth Mathemateg yn ôl yr angen. Atgyfnerthir y dysgu gyda adnodd digidol: ***TT Rockstar*** sy'n meithrin brwdfrydedd i ddysgu tablau ymysg y plant.

## Gwyddoniaeth

Mae gwyddonaieth yn astudiaeth o bopeth o'n cwmpas sy'n galluogi'r dysgwr i ddatblygu meddwl dadansoddol ac ymchwilgar, gan ddysgu arsylwi, amcangyfrif a rhagdybio yn ogystal ag arbrofi, a dod i gasgliadau.

Bydd y dysgwyr yn dysgu am bethau byw a phrosesau bywyd. Byddant hefyd yn dysgu am elfennau megis goleuni a disgyrchiant. Ceir cyfle hefyd i fireinio sgiliau rhifedd a llythrennedd.

## Astudiaethau Amgylcheddol

Darperir cyfleoedd eang i astudio'r byd o'n cwmpas, nid yn unig yng ngwarchodfa natur yr ysgol, ond hefyd trwy ymweld â lleoliadau megis Gwarchodfa RSPB yn Ynys Hir a Gwarchodfa Cors Dyfi. Mae'r ysgol hefyd yn gweithio'n agos gyda Chanolfan y Dechnoleg Amgen a Biosffer Bro Ddyfi.

# The School

## Numeracy/Mathematics

The school aims to develop a positive attitude towards mathematics through teaching specific strategies for number work. NUMICON is used in the Foundation Phase as a visual and highly effective means of learning mathematics and numeracy. We endeavour to teach learners to think clearly and reasonably, adjusting strategies learned to a variety of situations. There are a variety of resources such as Dewch i Feddwl (Let's think) and CAME that encourage learners to work independently. The school also provides Mathematics intervention programmes as necessary. Learning is reinforced with the digital resource TT Rockstar that fosters pupils' enthusiasm to learn their tables.



Numeracy & Mathematics

Science

Environmental Studies

## Science

Science is a study of everything around us and the learner will develop analytical and inquisitive thinking, learning to observe, estimate and predict, as well as experiment and draw conclusions.

Learners will learn about life processes and living things. They will also learn about elements such as light and gravity. There is also an opportunity to refine numeracy and literacy skills.



## Environmental Studies

Wide opportunities will be provided to study the world around us, not only in the nature reserve at school, but also by visiting locations such as RSPB Ynys Hir Reserve & Cors Dyfi Reserve. The school also works closely with the Centre for Alternative

# Cwricwlwm yr ysgol

**Addysg Gorfforol**

**Gweithgareddau allgyrsiol**





## Addysg Gorfforol

Mae'r ysgol yn cynnig amwrywiaeth eang o gyfleodd i bob disgybl ddatblygu sgiliau corfforol, i feithrin ymwybyddiaeth o bwysigrwydd dilyn cyfarwyddyd, dilyn rheolau a deall chwarae teg.

Darperir hyfforddiant mewn amrywiaeth o weithgareddau yn cynnwys gêmau, nofio, athletau, dawns, gymnasteg, a gweithgareddau awyr agored fel cyfeiriannu.

Yn y Cyfnod Sylfaen bydd pob plentyn yn cael awr yr wythnos o wersi Addysg Gorffrol. Erbyn Cyfnod Allweddol 2 bydd y disgyblion yn treulio, ar gyfartaledd, o leiaf awr a chwarter yr wythnos mewn gwersi Addysg Gorfforol sy'n cynnwys rhedeg y **Trac Dal i Fynd** yn feunyddiol.

Bydd cyfleoedd ychwanegol ar wahanol adegau o'r flwyddyn i fynychu sesiynau hyfforddiant ychwanegol ar ôl ysgol, e.e tenis, pêl-rwyd, golff, a Rygbi'r Ddraig.

Bydd y disgyblion hefyd yn cael cyfle i gynrychioli'r ysgol mewn amrywiaeth o gampau.

**Dyma rai o'r campau:**

Tîm pêl-rwyd, pêl-droed, rownderi, traws gwlad, athletau, nofio, a chyfeiriannu.

Bydd y disgyblion yn cael cyfleoedd i gystadlu yng nghystadlaethau'r Urdd, a chystadlaethau chwaraeon ar lefelau cylch, sirol a chenedlaethol.

## Gweithgareddau allgyrsiol

Trefnir amrywiaeth o weithgareddau allgyrsiol gan gynnwys cyfleoedd i fynychu cyrsiau preswyl gyda'r Urdd a Chanolfan Broneirion.

# Physical Education & Extra-curricular Activities

## Physical Education

The school offers a wide range of opportunities for all pupils to develop physical skills, to foster awareness of the importance of following instructions, of following rules and understanding the sense of fair play.

Training is provided in a variety of activities including games, swimming, athletics, dance, gymnastics, and outdoor activities such as orienteering.

In the Foundation Phase all children get an hour a week of Physical Education lessons. By Key Stage 2 pupils will spend, on average, at least an hour and a quarter a week in physical education lessons, including running on the ***Trac Dal i Fynd (Mile a Day).***

There will be additional opportunities at different times of the year to attend additional training sessions after school, e.g. tennis, netball, golf, and Dragon Rugby.

The pupils will also have the opportunity to represent the school in a variety of sports.

Here are some of the sports:

netball, football, rounders, athletics, cross-country, swimming and orienteering.

Pupils have opportunities to compete in Urdd competitions, and sports competitions at district, County and national levels.






## Extra-curricular Activities

A variety of extra-curricular activities are organised, including opportunities to attend residential courses with the Urdd and Broneirion Centre.

# 26 Cytundeb Cartref ag Ysgol

| Ysgol Bro Hyddgen | Fel rhiant/gofalwr gwnaf fy ngorau i: | |
|---|---|---|
| **Ethos** | Annog fy mhlentyn i barchu disgyblion eraill ac i fod yn garedig<br>Annog fy mhlentyn i wneud ei (g)orau glas<br>Hyrwyddo gwerth dwyieithrwydd | |
| **Parod i'r Ysgol!** | Danfon fy mhlentyn i'r ysgol yn lân a thaclus ac mewn gwisg addas<br>Sicrhau bod offer addas gan fy mhlentyn ar gyfer diwrnod ysgol e.e gwisg Addysg Gorfforol / sbectol / ffeil | |
| **Presenoldeb a Phrydlondeb** | Sicrhau presenoldeb uchel (95%+) a phrydlondeb | |
| **Gwaith Dosbarth a Chartref** | Cymryd diddordeb yng ngwaith fy mhlentyn<br>Annog fy mhlentyn i wneud ei (g)orau<br>Sicrhau bod fy mhlentyn yn gwneud y gwaith cartref hyd eithaf ei (g)allu<br>Hyrwyddo darllen yn y cartref | |
| **Ymddygiad** | Annog fy mhlentyn i feithrin a datblygu safonau uchel o ymddygiad bob amser | |
| **Lles a Chymorth Bugeiliol** | Hysbysu'r ysgol os oes problem sy'n debygol o effeithio ar addysg fy mhlentyn<br>Parchu Polisi Iechyd & Diogelwch yr ysgol | |
| **Cysylltiadau Cartref ac Ysgol** | Mynychu cyfarfodydd rhieni<br>Darllen pob llythyr o'r ysgol ac ymateb iddynt os oes eisiau<br>Cefnogi'r ysgol i roi rheolau'r ysgol ar waith | |
| **Bywyd Allgyrsiol yr Ysgol** | Cefnogi'r gweithgareddau mae'r ysgol yn eu cynnal, e.e cyngherddau, Ffair Haf | |

# Cytundeb Cartref ag Ysgol



| | **Fel disgybl gwnaf fy ngorau i:** | **Fel ysgol gwnawn ein gorau i:** |
|---|---|---|
| | Parchu disgyblion eraill ac i fod yn garedig<br>Gwneud fy ngorau glas<br>Gwneud yn fawr o fy sgiliau dwyieithog ac ymarfer fy nefnydd o'r Gymraeg a'r Saesneg fel sy'n briodol | Sicrhau bod y plant yn parchu eraill ac yn bod yn garedig<br>Sicrhau bod y plant yn gwneud eu gorau glas<br>Hyrwyddo gwerth dwyieithrwydd<br>Darparu cyfleoedd i'r plant ddefnyddio ac ymarfer eu Cymraeg a'u Saesneg fel sy'n briodol |
| | Cadw fy hun yn lân a thaclus<br>Dod â'r offer cywir ar gyfer gwneud fy ngwaith yn yr ysgol | Hyrwyddo gwisg addas a glendid a thaclusrwydd personol<br>Sicrhau bod eich plentyn yn ymwybodol o'r offer sydd angen ar gyfer diwrnod ysgol |
| | Mynychu'r ysgol yn feunyddiol ac yn brydlon | Annog a gwobrwyo presenoldeb a phrydlondeb |
| | Gwrando ar yr athrawon<br>Gweithio'n galed<br>Gwneud yn siwr fy mod yn gwybod yn union beth yw'r dasg gwaith cartref cyn gadael yr ysgol, a'i dychwelyd ar amser ac yn daclus<br>Gwneud yn fawr o bob cyfle posib i ddarllen | Dysgu'n effeithiol ac yn bwrpasol<br>Paratoi eich plentyn mewn ystod eang o destunau o fewn Cwricwlwm Cymru ac ar gyfer ei ddyfodol<br>Gosod gwaith priodol a'i farcio'n ystyrlon ac yn rheolaidd<br>Darparu adborth adeiladol sy'n dangos i'ch plentyn sut mae gwella<br>Darparu cyfleoedd addysgol cyfoethog i'ch plentyn<br>Darparu cyfleoedd i ddarllen |
| | Ymddwyn yn dda o fewn a thu allan i'r ysgol<br>Dilyn rheolau'r ysgol a'r Polisi Ymddygiad | Annog safonau uchel o ymddygiad yn unol â Pholisi Ymddygiad yr Ysgol |
| | Gadael fy athro wybod os oes unrhyw broblemau gennyf cyn gadael yr ysgol<br>Cydymffurfio â Pholisi Iechyd & Diogelwch yr ysgol | Gwrando ac ymateb i broblemau a phryderon ar unwaith a gweithredu'n briodol<br>Sicrhau diogelwch eich plentyn yn yr ysgol |
| | Dangos pob llythyr a roddwyd i mi gan yr ysgol i'm rhieni | Cynnal cyfarfodydd rhieni yn rheolaidd<br>Adrodd yn rheolaidd ar gynnydd, presenoldeb ac ymddygiad eich plentyn yn yr ysgol<br>Eich hysbysu am unrhyw ofid sydd gennym ynglŷn â'ch plentyn |
| | Manteisio ar y cyfleoedd sy'n cael eu cynnig i mi yn yr ysgol, e.e nofio, cyngherddau | Eich hysbysu am ddigwyddiadau sy'n cael eu cynnal neu mae'r ysgol yn rhan ohonynt |

# Home/School Agreement

| Ysgol Bro Hyddgen | As a parent / carer I will do my best to: | |
|---|---|---|
| **Ethos** | Encourage my child to respect others and to be kind<br>Encourage my child to do his / her very best<br>Promote the value of bilingualism | |
| **Ready for School!** | Send my child to school clean and neat in suitable clothing<br>Make sure my child has all the essential equipment for the school day e.g. P.E kit, glasses, reading file | |
| **Attendance & Punctuality** | Strive for high attendance: 95%+ | |
| **Schoolwork and Homework** | Take an active interest in my child's work<br>Encourage my child to do his / her best<br>Make sure that my child completes homework to the best of his / her ability<br>Find opportunities for my child to read | |
| **Behaviour** | Encourage my child to develop high standards of behaviour at all times<br>Reinforce the school Behaviour Policy | |
| **Well-being & Pastoral Care** | Inform the school if there are problems that are likely to affect my child's education<br>Respect the school's Health & Safety Policy | |
| **Home and School links** | Attend parents' meetings<br>Read letters from school and respond to them if needed<br>Support the school in implementing the school rules | |
| **Extra-curricular activities** | Support activities held by the school, e.g. concerts, Summer Fair | |

# Home/School Agreement



| As a pupil I will do my best to: | As a school we will do our best to: |
|---|---|
| Respect other children and be kind to them<br>Do my very best<br>Make the most of my bilingualism and practise both languages as appropriate | Encourage your child to respect others and to be kind<br>Provide opportunities for your child to succeed<br>Promote the value of bilingualism<br>Provide opportunities for your child to practise both Welsh & English as appropriate |
| Keep myself neat and clean<br>Bring all the things I need for my work to school | Promote the wearing of appropriate school wear and personal hygiene<br>Make sure that your child knows what is needed for the school day |
| Attend school every day on time: 8.50am | Encourage and reward high attendance & punctuality |
| Listen to my teachers and try my best at all times<br>Make sure I know what the homework task is before I leave school and complete my homework neatly and always return it on time<br>Make the most of every opportunity to read | Teach in an effective and purposeful way<br>Prepare stimulating lessons for the pupils, following the guidelines set within the Curriculum for Wales<br>Set purposeful work and mark it regularly<br>Provide your child with constructive feedback<br>Provide your child with rich educational experiences<br>Promote opportunities for reading |
| Take responsibility for my behaviour inside and outside of school<br>Follow the school rules & Behaviour Policy | Promote high standards of behaviour in line with the school rules & Behaviour Policy |
| Let my teacher know if I have any worries or problems before I leave school at the end of the day<br>Conform to the school's Health & Safety Policy | Listen and respond to problems and worries immediately<br>Ensure your child's safety at school |
| Give all letters I receive at school to my parents | Hold regular parents' meetings<br>Report regularly on the progress, attendance and behaviour of your child<br>Inform you of any worries we may have about your child |
| Make the most of opportunities open to me e.g. swimming, concerts | Inform you of all events to be held by the school or of events that the school children are a part of |

# 30 Parch, Parod, Diogel

**Parch**
Mae'r plant a'r staff i gyd yn parchu'i gilydd yn y ffordd maen nhw'n ymddwyn ac yn siarad.

**Parod**
Mae'r holl staff a phlant yn barod, yn cyrraedd yr ysgol ar amser, ac yn awyddus i ddysgu.

**Diogel**
Mae'r plant a'r staff i gyd yn gweithio fel tîm er mwyn sicrhau amgylchedd ddysgu ddiogel.

# Respectful, Ready and Safe



**Respectful**
All staff and students are respectful in their actions and dialogue with each other.

**Ready**
All staff and students are ready, arriving on time, fully equipped and eager to learn.

**Safe.**
All staff and students work as a team to create and maintain a safe learning environment.

# 32 Cwricwlwm yr ysgol






## ADDYSG GREFYDDOL A CHYDADDOLI

Nid oes gan yr ysgol hon gysylltiad pendant ag unrhyw grefydd nac enwad crefyddol penodol. Dysgir Addysg Grefyddol yn ôl Cwricwlwm Cytûn Awdurdod Addysg Powys. Yn y Cyfnod Sylfaen dysgir Cristnogaeth ac Iddewiaeth, tra yng Nghyfnod Allweddol 2 dysgir Cristnogaeth, Iddewiaeth, Islam a Sikhiaeth.

Y mae'r ysgol yn cynnal gwasanaethau crefyddol ysgol gyfan, adrannol a dosbarth. Mae'r gwasanaethau yma'n rhan bwysig o ethos ac ymdeimlad yr ysgol. Drwy'r gwasanaethau yma yr ydym yn hyrwyddo gwerthoedd ein hysgol gan feithrin empathi a gofal am eraill, ein cymuned a'n byd.

Mae hawl gan rieni i eithrio'u plant o wersi Addysg Grefyddol a gwasanaethau'r ysgol os bydd rhesymau priodol.

## Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

Ceir ystafell benodedig ar gyfer dysgu T.G.Ch. gyda Bwrdd Gwyn Rhyngweithiol, 12 cyfrifiadur ac 14 cliniadur a nifer fawr o i-Pads. Erbyn hyn trwy gefnogath y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon mae Bwrdd Gwyn Rhyngweithiol ymhob dosbarth.

Datblygir TGCh trwy bynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol gan ddysgu sgiliau'n drawsgwricwlaidd.

Mae'r ysgol yn gweithio'n agos gyda Mr Tomi Rowlands, Pennaeth Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu Ysgol Bro Hyddgen, o safbwynt cyngor arbenigol ynglŷn ag adnoddau a threfnu hyfforddiant i staff yr ysgol. Mae Mr Rowlands hefyd yn darparu gwersi TGCh i blant CA2.

# The School






## Religious Education & Collective Worship

The school does not have any specific connection with any particular religion or religious denomination. Religious education is taught according to the Powys Education Authority Agreed Syllabus. Christianity and Judaism are taught in the Foundation Phase, while in Key Stage 2 Christianity, Judaism, Islam and Sikhism are taught.

The school holds whole-school, departmental and class religious services. These services are an important part of the ethos and feeling of the school. Through these services we promote our school's values, building empathy and care for others, our community and our world.

Parents have the right to exempt their children from Religious Education lessons and school services where there are appropriate reasons.

## Information and Communication Technology

There is a designated room for learning ICT with an Interactive White Board, 12 computers, 14 laptops and a large number of i-pads. The school has now an Interactive Whiteboard in each classroom, thanks to the Parent-Teacher Association.

ICT skills are developed across the subjects of the National Curriculum.

The school works closely with Mr Tomi Rowlands, Head of Ysgol Bro Hyddgen's Information Technology and Communications Department, regarding expert advice on resources and organising training for school staff. Mr Rowlands also provides ICT lessons to children in KS2 (Year 3– 6).

# 34 Cwricwlwm yr ysgol





## Trefniadaeth dysgu ac addysgu

Trefnir y gwaith o fewn yr  ystafelloedd dosbarth gan yr athro/athrawes. Bydd athrawon y ddwy ffrwd yn cyd-gynllunio'r themâu tymhorol, gan ddefnyddio cyngor arweinyddion pynciol yn ôl y galw.

Rhennir y dysgwyr yn ôl eu hoedran, mewn grwpiau cymysg eu gallu. Gall hyn olygu trefniadaeth dosbarth sy'n cynnwys mwy nag un flwyddyn ysgol. Bydd y dysgwyr yn trosglwyddo o'r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 2 (yr Adran Iau) pan fyddant yn saith oed.

### Ymweliadau Addysgol

Trefnir ymweliadau i gyd-fynd â themâu penodol pob dosbarth. Bydd disgwyl i rieni dalu cost mynediad a chyfraniad tuag at y costau teithio. Ceir cefnogaeth ariannol i'r rhai sy'n derbyn prydau ysgol am ddim.

Bydd dysgwyr yr Adran Iau yn trosglwyddo i'r Campws Uwchradd pan fyddant yn 11 oed. Mae polisi trosglwyddo cadarn yn ei le, gyda rhaglen o ddigwyddiadau pontio.

## ADDYSG RHYW

Nid yw Addysg Rhyw yn cael ei ddysgu fel pwnc ar wahân. Bydd yr ysgol yn dysgu Addysg Rhyw yn unol â gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol, ac yn rhan o raglen Addysg Bersonol a Chymdeithasol yr ysgol. Gall rhieni drafod ein polisi gyda'r Pennaeth Cynorthwyol, Mrs Haf ap Robert. Mae gan yr ysgol Bolisi ar Addysg Rhyw sydd wedi ei gytuno gan y Llywodraethwyr.  Y mae'r polisi'n cael ei adolygu'n rheolaidd. Bydd y Nyrs Ysgol yn rhoi cyflwyniad i blant Blwyddyn 6. Bydd y nyrs hefyd yn trafod mewn dull addas a sensitif, datblygiad y corff, pwysigrwydd glanweithdra, a bwyta'n iach. Mae hawl gan rieni i eithrio'u plant o'r cwricwlwm addysg ryw neu ran ohono heblaw'r rhannau hynny a nodir yn y cwricwlwm cenedlaethol.

Nid oes rhaid rhoi rheswm am yr eithrio hyn.

# The School Curriculum





## Organisation of Teaching and Learning

The class teacher is responsible for preparing and presenting class tasks.  Teachers of both streams co-operate when deciding on the term's themes, utilising the advice of Numeracy & Literacy leaders as required.

The learners are divided according to age, in groups of mixed ability. This may involve a classroom which comprises more than one year group. The learners will transfer from the Foundation to Key Stage 2 (junior section) when they are seven years old. Junior pupils transfer to the Secondary Campus when they are 11 years old. A transfer policy is firmly in place, with a programme of transition events.

### Educational Visits

Visits are arranged to coincide with the specific themes of each class. Parents will be expected to contribute towards admission and travel costs. There is financial support for those who

## SEX EDUCATION

Sex education is not taught as a separate subject. The school teaches Sex Education in accordance with the requirements of the national curriculum, and as part of the school's Personal and Social Education programme. Parents can discuss our policy with the Assistant Headteacher, Mrs Haf ap Robert. The school has a sex education policy which has been agreed by the Governors. The policy is reviewed regularly. The school nurse provides a presentation for learners in Year 6. The nurse also discusses in a suitable and sensitive manner, the development of the body, the importance of cleanliness, and healthy. Parents have the right to exempt their children from part or the whole of sex education, other than from those parts which are set out in the national curriculum.

There is no need to give a reason for exemption

# 36 Anghenion Dysgu





## Polisi Anghenion Dysgu Ychwanegol

Mae'r ysgol yn ffodus iawn gan fod Uned Anghenion Dysgu Ychwanegol ardal Bro Ddyfi wedi ei lleoli yma. Rhiannon Law yw'r Athrawes yng Ngofal yr Uned, gydag Carol Lewis a Julie Price yn ei chynorthwyo. Mae lle i 12 disgybl fynychu'r Uned. Os oes angen sylw unigol cyfeirir y disgybl at Seicolegydd Addysg Powys ar gyfer asesiad trylwyr. Bydd natur y ddarpariaeth yn ddibynnol ar ganlyniad yr asesiad. Ar hyn o bryd mae'r Uned Anghenion Dysgu Ychwanegol yn rhan o'r Adolygiad i'r ddarpariaeth sirol ym Mhowys, ac yn mynd trwy broses ymgynghori.

## Cyfleoedd Cyfartal

Mae gan yr ysgol bolisi Cyfle Cyfartal cadarn ac mae croeso i rieni weld copi cyflawn. Gallwn gadarnhau ein bod yn hyrwyddo cyfleoedd cyfartal a pherthynas da o safbwynt hîl, rhyw, crefydd, iaith ac anabledd.

## Disgyblion ag Anableddau / Cynllun Hygyrchedd

Mae'r ysgol yn sicrhau bod disgyblion ag anableddau yn cael mynediad llawn i'r cwricwlwm a phob cyfle o fewn yr ysgol. Mae cynllun hygyrchedd yr ysgol yn sicrhau mynediad rhwydd i ddisgyblion a rhieni sydd ag anableddau. Lleolir toiled i'r anabl ger y prif fynedfa, ynghyd ag ystafell dawel a phwrpasol ar gyfer sesiynau arbenigol gydag asiantaethau allanol ac arbenigol. Gwneir trefniadau arbennig i gefnogi rhieni disgyblion ag anableddau, gan gynnwys cyfafodydd i gynllunio a pharatoi ar gyfer mynediad i'r ysgol.

## Cyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal

Y Pennaeth Cynorthwyol mewn cydweithrediad â Miss Rhiannon Law (ALNCO) sydd yn gyfrifol am hyrwyddo cyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal sydd wedi eu cofrestru yn yr ysgol.

# Learning Needs






## Additional Learning Needs Policy

The school is fortunate as the Bro Ddyfi area additional learning needs unit is on campus. Miss Rhiannon Law is the Teacher in charge of the unit, and Mrs Carol Lewis and Mrs Julie Price are the Specialist Centre Teaching & Learning Assistants. There is room for 12 pupils to attend the unit. If individual attention is required, the pupil is referred to a Powys Educational Psychologist for a thorough assessment. The nature of the provision depends on the outcome of the assessment. Currently the additional learning needs unit is subject to a county-wide review of provision, and is currently involved in the consultation process.

## Equal opportunities

The school has a strong equal opportunities policy and parents are welcome to see a complete copy. We can confirm that we promote equality of opportunity and good relations in terms of race, gender, religion, language and disability.

## Pupils with Disabilities / Accessibility Plan

The school ensures that pupils with disabilities have full access to the curriculum and every opportunity within the school. The school Accessibility Plan ensures easy access for pupils and parents with disabilities. A toilet for the disabled is located near the main entrance, along with a quiet customised room for specialist sessions with external agencies and experts. Special arrangements are made to support parents of pupils with disabilities, including meetings to plan and prepare for entry to the school.

## Educational Attainment of Looked After Children

The Assistant Headteacher and the Primary Campus ALNCO, Miss Rhiannon Law, is responsible for promoting the educational attainment of looked after children within the school.

# 38 Diogelu Plant



## Trefn diogelu plant

Mae Diogelu Plant yn bwysig iawn ar y Campws Cynradd.

Swyddog Diogelu Plant Dynodedig y Campws Cynradd yw Mrs Haf ap Robert.

Y Dirprwy Swyddogion Diogelu Plant yw Miss Iona Davies a Mr Alwyn Jones.

Y Llywodraethwr â'r Cyfrifoldeb am Ddiogelu Plant yw Mrs Angharad Behnan.

Mae polisi Diogelu Plant cadarn yn yr ysgol.

Mae pob aelod o'r staff yn derbyn hyfforddiant Diogelu Plant Lefel 1 ac mae diogelu ac amddiffyn holl ddisgyblion yr ysgol yn gyfrifoldeb gan bob aelod o staff.

Os bydd pryderon am gam-drin corfforol, emosiynol, rhywiol neu esgeuluso plant, bydd staff yn dilyn Canllawiau Diogelu Plant Powys, ac yn adrodd yn syth i'r Swyddog Diogelu Plant.

Yn dilyn adroddiad o'r fath bydd y Swyddog Diogelu Plant yn ymgynghori â chydweithwyr proffesiynol mewn asiantaethau allanol megis Y Gwasnaeth Iechyd neu Wasanethau Cymdeithasol Powys. Yn dilyn trafodaethau, mae'n bosibl y byddai rhaid cyfeirio plentyn yn swyddogol at Adran Gwasanethau Plant, Gwasanaethau Cymdeithasol Powys.

Gall sefyllfa godi lle na fyddai'n briodol pob amser i drafod amgylchiadau gyda rhieni ymlaenllaw cyn cyfeiro at y Gwasnaethau Cymdeithasol. Bydd yr ysgol yn glynu'n gaeth at ganllawiau protocol Awdurdod Powys.

Yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n gyfrifol am unrhyw gamau gweithredu.

> 'Dw i'n gwybod ble i fynd os oes rhywbeth yn fy mhoeni'

# Child Protection





## Child Protection Arrangements

Safeguarding children is very important on the Primary Campus.

The Local Authority Designated Officer (LADO) on the Primary campus is Mrs Haf ap Robert.

The Deputy Child Protection Officers are Miss Iona Davies and Mr Alwyn Jones.

The Governor with responsibility for Child Protection is Mrs Angharad Behnan.

There is a robust Child Protection policy in the school.

All members of the staff receive level 1 Child Protection training and there all members of staff are responsible for safeguarding and protecting all the pupils of the school.

If there are concerns about physical, emotional, sexual abuse or child neglect, then staff will follow Powys Safeguarding of Children Guidance, and report directly to Child Protection Officer.

Following such a report the school will discuss the issue with the relevant professional officer in external agencies such as the Health Service or the Social Services. Following these discussions, it is possible that your child could be directed officially to the Children's Services Department, Powys Social Services.

Depending on the situation, it would not be appropriate at all times to discuss the circumstances with the parents before making referral to the Social Services. The school will adhere strictly to protocol guidelines laid down by Powys Authority.

The Social Services Department is responsible for any actions taken.

> "I know where to go if something is bothering me"

# 40 Disgyblaeth



## Disgyblaeth a rheolau’r ysgol

Mae ymddygiad disgyblion Ysgol Bro Hyddgen yn dda iawn. Rydym yn disgwyl y bydd pawb yn gwrtais a’i gilydd, gan barchu eiddo disgyblion eraill ac eiddo’r ysgol.



## Disgyblaeth a Rheolau’r ysgol

Mae ymddygiad disgyblion y Campws Cynradd yn dda iawn. Disgwylir i bawb fod yn gwrtais â’i gilydd, gan barchu eiddo disgyblion eraill ac eiddo’r ysgol.

Disgwylir bod rhieni wrth dderbyn lle ar gyfer eu plentyn / plant yn cytuno â’r rheolau isod, ac yn gwneud eu gorau i gefnogi a hyrwyddo amcanion yr ysgol.  Mae’r ysgol wedi paratoi Cytundeb Cartref ag Ysgol, mewn ymgynghoriad â disgyblion, llywodraethwyr a staff.

Hyderirir y bydd pob disgybl yn meithrin hunan ddisgyblaeth, hunan barch a pharch tuag at eraill. Disgwylir y bydd y plant yn gwrtais ac yn parchu’r rheolau’r ysgol.

## Amser Cinio

- Dylai disgyblion sy’n mynd adref i ginio ddod â nodyn i egluro hynny.
- Ni chaniateir i ddisgyblion adael tir yr ysgol heb ganiatâd

Disgwylir i blant fynd allan ar yr iard yn ystod cyfnodau chwarae ac amser cinio pan fydd y tywydd yn caniatau (ar wahân i blant sy’n cymryd rhan mewn gweithgareddau arbennig neu wedi cael caniatâd arbennig i aros i mewn). Gwneir trefniadau eraill ar dywydd garw.

Mae glanweithdra a thaclusrwydd yn yr ysgol yn rhan o gyfrifoldeb pob aelod o’r ysgol ac fe ddylai pob disgybl gynorthwyo drwy ddefnyddio’r biniau sbwriel a pharchu’r ysgol a’i hadnoddau.

Mae gan yr ysgol Bolisi Bwyta’n Iach. Os bydd plant yn dod â rhywbeth i’w fwyta amser chwarae yna anogir ffrwythau yn hytrach na melysion. Darperir snac iach bob dydd i blant Y Cyfnod Sylfaen, ar gost o 20 ceiniog y dydd Cesglir yr arian hyn bob bore Llun gan y cymhorthyddion dosbarth.

# Discipline

## Discipline and the School Rules

The behaviour of Ysgol Bro Hyddgen pupils is very good. We expect that everyone will be polite to each other, respecting the property of others and the property of the school.

It is expected that parents in accepting a place for their child / children agree with the rules below, and do their best to support and promote the objectives of the school. The school has prepared a Home School Agreement, in consultation with pupils, Governors and staff.

We are confident that all pupils will foster self-discipline, self-respect and respect for others. The children are expected to be polite and to respect the school rules.

## Lunch Time

• Pupils who go home for lunch should bring a note to clarify that arrangement.

• Pupils are not allowed to leave the school grounds without permission from the school.

Children are expected to go out to the school yard during play periods and lunchtime when the weather permits (except for children who are taking part in special activities or have special permission to stay in). Other arrangements will be made during bad weather.

Cleanliness and tidiness in school is part of the responsibility of all members of the school community and each pupil should assist by making use of the litter bins and respecting the school and its resources.

The school has a Healthy Eating policy. If a child brings something to eat during playtime, then fruit is preferable to sweets. A healthy snack will be provided for the Foundation Phase children each day at a cost of 20 pence per day. Foundation Phase parents are asked to pay £1 to the classroom assistants every Monday morning.




## Discipline and school rules.

The behaviour of Ysgol Bro Hyddgen pupils is very good. We expect that everyone will be polite to each other, respecting the property of others and the property of the school.



# 42 Rheolau'r Ysgol

## Diogelwch: Polisi Bwlio

Ein nod yw cadw pawb yn ddiogel drwy gyfrwng egwyddorion y Blynyddoedd Anhygoel, KiVa a dulluiau adferol: *Restorative Approaches*





## Presenoldeb

Mae presenoldeb rheolaidd yn bwysig, a phan fydd salwch neu amgylchiadau arbennig yn digwydd yna fe ddylid ffonio'r ysgol yn syth neu ddod â llythyr wrth y rhieni / ofalwyr i egluro'r absenoldeb pan fydd y plentyn yn dychwelyd i'r ysgol.

Os yw rhieni / ofalwyr yn dymuno mynd â phlentyn ar wyliau yn ystod y tymor yna dylid gwneud cais am y ffurflen briodol o'r ysgol. Caniateir pythefnos o wyliau y flwyddyn os yw presenoldeb y plentyn heb syrthio o dan 90% yn ystod y tymor blaenorol.

Ni chaniateir reidio beic ar dir yr ysgol heblaw pan gynhelir gwersi Hyfforddiant Beicio Safonau Cenedlaethol. Dylai plant sy'n dod â beics i'r ysgol eu gadael yn y lloches beics pwrpasol. Disgwylir i rieni sicrhau bod gan blant helmedau ar eu siwrnau i'r ysgol ac adref, a bod y beic mewn cyflwr diogel.

Os yw plant yn dod â brechdanau i ginio, anogwn pob rhiant i barchu rheol bwyta iach yr ysgol ac i beidio rhoi melysion a siocled yn y pecyn bwyd. Anogir y plant i yfed dŵr yn rheolaidd yn ystod y diwrnod ysgol. Ni ddylid dod â photeli gwydr i'r ysgol nac ar deithiau addysgol.

Ni ddylid dod ag arian na phethau gwerthfawr i'r ysgol. Ond os oes rhaid, yna dylid gadael arian a phethau o werth gyda'r athro.

## Diogelwch: Polisi Gwrth Fwlio

Yng Nghyfnod Allweddol 2 dysgir a hyrwyddir egwyddorion y rhaglen **KiVa.** Yn y Cyfnod Sylfaen gweithredir egwyddorion **y Blynyddoedd Rhyfeddol.** Defnyddir dulliau adferiadol er mwyn adfer perthynas rhwng plant.

### Beth ydy KiVa?

Rhaglen i atal bwlio ydy KiVa. Cafodd ei datblygu ym Mhrifysgol Turku yn y Ffindir.

Dengys treialon dan reloaeth yn y Ffindir bod KiVa yn effeithiol.

# School Rules

## Attendance

Regular attendance is important, and when illness or special circumstances occur then the school should be notified immediately or a letter should be presented by parents / carers to explain the absence as the child returns to school.

If parents / carers wish to take a child on holiday during term time then they should apply for the appropriate form from the school. Two weeks' holiday are allowed per year provided the child's attendance has not fallen below 90% during the previous term.

Bike riding is not permitted on school grounds apart from during cycling lessons. Children who bring bicycles to school should leave them in the bike shelter. Parents are expected to ensure that children wear their helmets on their journeys to and from school, and that the bike is in a safe condition.

If children bring sandwiches for lunch, we urge all parents to respect the healthy eating rule of the school and not to put sweets and chocolate in the packed lunch. Children are encouraged to drink water regularly during the school day. Glass bottles should not be brought to school or on educational trips.

Money or valuables should not be brought to school but, if it is absolutely necessary that they are brought to school, they should be deposited with the teacher.

## Safety: Anti-Bullying Policy

We aim to keep everyone safe by means of the principles of the **Incredible Years**, **KiVa** and **Restorative Approaches**.

### What is KiVa?

KiVa is an evidence-based programme to prevent and reduce bullying. The meaning of KiVa is 'to be nice' and 'against bullying'. The programme is now used by 90% of schools in Finland providing comprehensive education.

## Safety: Bullying policy

*We aim to keep everyone safe by means of the principles of the Incredible Years, KiVa and Restorative Approaches.*



# 44 Asesu



## Asesu

Cyflwynir adroddiad ysgrifenedig blynyddol i rieni am gynnydd eu plentyn yn nhymor yr haf. Caiff pob plentyn ei asesu'n fewnol fel rhan o bolisi asesu'r ysgol. Asesir pob dysgwr hefyd yn unol â gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol trwy asesiad athro ar ddiwedd Y Cyfnod Sylfaen a diwedd Cyfnod Allweddol 2.

Ar derfyn y llawlyfr ceir canlyniadau asesu agredig yr ysgol o dan y Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer Cyfnod Allweddol 2 a'r wybodaeth gymharol genedlaethol (Cymru gyfan)

## Nosweithiau Rhieni

Cynhelir nosweithiau rhieni fel arfer ddwywaith y flwyddyn, ar ddechrau flwyddyn addysgol ac yn ystod tymor y Pasg, gyda chyfrarfod ychwanegol ar gyfer dysgwyr ag angen cefnogaeth ychwanegol ac sydd ar restr Gweithredu'r Ysgol a Mwy.

Bydd pob athro dosbarth yn gosod targedau ar gyfer gwella ar ddechrau pob tymor: Targedau Iaith, Mathemateg a Rhif, a Thargedau Cyffredinol yn CA2. Yn y Cyfnod Sylfaen gosodir Targedau Datblygiad Personol a Chymdeithasol.

Bydd pob athro yn adolygu'r targedau hyn gyda phob dysgwr, ar derfyn pob tymor cyn danfon y wybodaeth adref ar gyfer sylwadau rhieni.

Byddwn yn trefnu Cyfarfod Rhieni yn ystod Tymor yr Haf ar gyfer rhieni y plant hynny sydd wedi'u nodi am Weithredu Ysgol a Mwy neu sydd â Datganiad o Anghenion Addysgol ar y Gofrestr Anghenion Arbennig.

Gellir trefnu i weld y Pennaeth Cynorthwyol neu'r athrawon ar unrhyw adeg rhesymol os oes gennych bryder am gynnydd eich plentyn.

# Assessment



## Assessment

In the summer an annual written report is presented to parents recording their child's progress. All children will be internally assessed as part of the school's assessment policy. Each learner is also assessed in accordance with the requirements of the National Curriculum through teacher assessment at the end of the Foundation Phase and at the end of Key Stage 2.

The school assessment aggregated results under the National Curriculum for Key Stage 2 and the all-Wales national comparative information can be seen at the end of the handbook.

## Parents' Evenings

Parents' evenings are held usually twice a year, at the beginning and during the Easter term, with an additional meeting for learners with additional support needs and on the School Action+ list.

Each class teacher will set targets for improvement at the start of each term: Language, Mathematics and Number Targets, and General Targets at KS2. In the Foundation Phase targets are set for Personal and Social Development.

All teachers will review these targets at the end of each term with each learner, before sending the information home for parents' comments.

We will arrange a Parents' Meeting during the summer term for parents of those children who are on the Special Needs Register: School Action+ and those who have a Statement of Special Educational Needs.

A meeting can be arranged at any reasonable time to see the Assistant Headteacher or one of the teachers if you have a concern about your child's progress.

# 46 Cefnogaeth Fugeiliol




## Gofal a Lles

Y Pennaeth a'r Pennaeth Cynorthwyol sy'n gyfrifol am drefniadaeth Gofal a Lles yr ysgol. Yr athrawon dosbarth sydd yn gyfrifol am gynnydd addysgol a gofal bugeiliol y dysgwyr yn eu dosbarthiadau. Mae lles disgyblion yn elfen gref o'r ysgol.

Os oes gan rieni unrhyw bryder dylid trefnu apwyntiad gyda'r Pennaeth Cynorthwyol ar unwaith - 01654 704200

## Gwasanaethau Cefnogol

Bydd nyrs yr ysgol a deintydd yn ymweld â'r ysgol yn ystod y flwyddyn.

Mae'r ysgol yn rhan o gynllun GWENA Llywodraeth Cymru. Caiff y plant ieuengaf eu dysgu sut i lanhau eu dannedd yn gywir, a neilltuir 3 munud yn ddyddiol ar gyfer y gweithgaredd hwn.

Doberthir taflenni gwybodaeth am y cynllun yn y Dosbarth Derbyn, a bydd cyfle i bob rhiant arwyddo ffurflen caniatâd.

Gall y Pennaeth Cynorthwyol a'r ALNCO hefyd gyfeirio plant at nifer o asiantaethau allanol - megis Therapydd Lleferydd, Therapydd Galwedigaethol a'r Gwasanaeth Ffysiotherapi.

Mae gwaith aml-asiantaeth yn nodwedd amlwg yng ngwaith bugeiliol yr ysgol a gall y Pennaeth Cynorthwyol hefyd gyfeirio plant at fudiadau megis ***Action4Children***

## TAF

Mae cefnogaeth ar gael gan Tîm o Amgylch y Teulu a weinyddir gan Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc Powys. Mae TAF yn grŵp o sefydliadau sy'n gweithio gyda'i gilydd i wella bywydau plant a phobl ifanc ym Mhowys.

Gellir cyfeirio plant a theuluoedd yn uniongyrchol at y fforwm aml-asiantaeth i sicrhau cefnogaeth mewn amrywiaeth o feysydd - megis cyngor ar Gyllid, Tai, yn ogystal ag asiantaethau megis CAHMS (Child and Adolescent Mental Health services), Young Carers a Kooth. Mae'n wasanaeth gwerthfawr er mwyn sicrhau cefnogaeth tra bod plant bregus yn trosglwyddo o'r campws cynradd i gampws uwchradd Ysgol Bro Hyddgen.

# Well-being





## Well-being

The Headteacher and Assistant Headteacher are responsible for the school's pastoral organisation. The class teachers are responsible for educational progress and pastoral care of the learners in their classes. The welfare of pupils is  a strong feature of the school.

If parents have any concerns they should arrange an appointment with the Assistant Headteacher at once - 01654 704200.

## Support Services

The school nurse and a dentist visit the school during the year.

The school is part of the Welsh Government SMILES scheme. The youngest children will be taught how to brush their teeth properly; 3 minutes are allocated daily for this activity.

Information leaflets about the scheme are distributed in the Reception Class, and there will be an opportunity for all parents to sign a consent form.

The Assistant Headteacher and ALNCO can also refer children to a number of external agencies - such as the Speech Therapist, Occupational Therapist and the Physiotherapy Service.

Multi-agency work is a prominent feature of the pastoral work of the school and the Assistant Headteacher may also refer children to organisations such as Action4Children

## TAF

Team Around the Family is a group of organisations working together to improve the lives of children and young people in Powys.

Children and families can be referred directly to the multi-agency forum to ensure support in a variety of areas such as advice on Finance, Housing, as well as agencies such as CAHMS (Child and Adolescent Mental Health services), Young Carers and Kooth. It is a valuable service ensuring support for vulnerable children who are transfering from the primary to the secondary campus at Ysgol Bro Hyddgen.

# 48 Gwybodaeth



Uchod: enillwyr y gystadleuaeth Her Rhifedd Mawrth 2018.

Isod: dysgwyr yn mwynhau'r band Cymraeg, Candelas yn perfformio'n fyw yn Llanfaircaereinion.



## Gwaith Cartref

Caiff gwaith cartref addas ei osod unwaith yr wythnos yn Y Cyfnod Sylfaen: gweithgareddau hwyliog ar amrywiaeth o themâu.

Disgwylir i bob disgybl ddarllen adref yn ddyddiol, gan nodi hynny yn y llyfr Cofnodi Darllen.

Gosodir gwaith cartref yn gynyddol yn ystod amser eich plentyn yng Nghyfnod Allweddol 2. Gofynnir i rieni i sicrhau bod y dysgwyr yn cwblhau eu gwaith cartref yn drefnus yn raenus ac mewn da bryd.

## Codi Tâl

Gofynnir am gyfraniadau tuag at gostau cludiant ar gyfer ymweliadau addsygol, gan gynnwys bysiau i fynd i nofio. Ni chodir tâl am wersi nofio.

Caiff disgyblion Blynyddoedd 5 a 6 gyfleoedd i fynd ar gyrsiau preswyl i wersylloedd yr Urdd yng Nglan-llyn a Llangrannog. Gall y cyrsiau hyn fod yn gostus ac mae'r ysgol yn darparu'r cyfle i dalu am y cyrsiau hyn tros gyfnod o amser.

Mae'r ysgol yn gofyn am gyfraniadau tuag at gostau gwersi offerynnol ac ymweliadau addysgol. Ceir cefnogaeth ariannol i'r rhai sy'n derbyn prydau ysgol am ddim.

## Cinio Ysgol

Darperir cinio ysgol yn y neuadd rhwng 12.15 o'r gloch a 1.30 o'r gloch.  Ar hyn o bryd cost cinio ysgol yw £2.25.

Mae Gwasanaeth Arlwyo Powys yn darparu bwyd iachus a maethlon. Yn ogystal â'r prydau poeth arferol darperir taten bôb a brechdanau

# Information

ffres yn ddyddiol.

Mae copïau o'r fwydlen ar gael ar gais o swyddfa'r ysgol. Gweler hefyd: https://www.brohyddgen.powys.sch.uk/en/our-school/the-canteen-school-meals

## Homework

Suitable Homework is set once a week in the Foundation Phase: fun activities on a variety of themes.

All pupils are expected to read at home daily, making a note of the reading in the Reading Record book.

Homework will be increasingly set during your child's time at Key Stage 2. Parents are asked to ensure that learners complete their homework in an organised manner, and to ensure good quality work is produced on time.

## Costs

Contributions towards transport costs for educational visits are requested, including buses to go swimming. There is no charge for swimming lessons.

Pupils in years 5 and 6 are offered opportunities to go on residential courses to the Urdd camps in Glan-llyn and Llangrannog. These courses can be costly and the school provides the opportunity to pay for these courses over a period of time.

The school asks for contributions towards the costs of instrumental lessons and educational visits. There is financial support for those who receive free school meals.



Above: The Three wise men in the Fondation Phase Christmas Show: *Strictly Dolig*

Below: Pupils enjoying a visit from the character Begw Haf .



# 50 Gwybodaeth



Tywydd garw a Diwrnodau Di-gyswllt



Gellir darparu prydau ar gyfer disgyblion ag anghenion deietegol arbennig. Dylid cysylltu â Mrs Olwen Gaskell am wybodaeth pellach.

Mewn rhai amgylchiadau gellir cael cinio am ddim ac fe ellir cael ffurflen naill ai drwy'r ysgol neu drwy'r Swyddfa Addysg Ranbarthol.

Mae'r ysgol yn gweithredu polisi **Bwyta 'n Iach** a gofynnwn yn garedig i rieni wneud eu gorau i ddarparu pecyn bwyd iach**.**

## Tywydd garw

Gwneir pob ymdrech i gadw'r ysgol ar agor mewn tywydd garw. Cyfrifoldeb personol pob rhiant yw penderfynu os yw'r amodau teithio yn caniatau i'r plant fynychu'r ysgol yn ddiogel mewn tywydd garw. Os bydd yr ysgol yn cau hysbysir hyn ar wefan Cyngor Sir Powys, ac ar Radio Cymru a Radio Wales. Os bydd rhaid danfon y plant adref oherwydd tywydd garw, bydd yr ysgol yn dilyn trefn bendant o yrru plant y bysiau a'r tacsis adre'n gyntaf. Ni ddanfonir neb adref os na cheir cadarnhad tros y ffôn bod oedolyn yno i'w derbyn.

## Diwrnodau Di-gyswllt

Trefnir diwrnodau di-gyswllt yn ystod y flwyddyn pan drefnir hyfforddiant penodol ar gyfer staff yr ysgol. Rhoddir gwybodaeth i rieni mewn da bryd ynghylch dwrnodau di-gyswllt: HMS staff.

# Information

Meals can be provided for pupils with special dietary needs. Please contact Mrs Olwen Gaskell for further information.

Under some circumstances free lunch can be provided, and an application form can be obtained either from the school or from the Area Education Office.

The school operates a **Healthy Eating** policy and we kindly ask parents to do their best to provide a healthy packed lunch.




## Inclement Weather & Non-contact Days

## Inclement Weather

Every effort is made to keep the school open in severe weather. It is the personal responsibility of each parent to decide if the travel conditions allow their children to attend school safely in bad weather. If the school closes, notice will be given on the Powys County Council website, and on Radio Cymru and Radio Wales. If children have to be sent home due to adverse weather conditions, the school will follow a defined procedure of sending children who travel on buses and taxis home first. No-one will go home without telephone assurance that an adult will be there to receive them.



## Non-contact Days

Non-contact days are organised during the year when specific training is organised for school staff. Parents are given information in good time about non-contact days: staff INSET (In-Service Training).

# 52 Gwybodaeth



## Gwisg Ysgol

Mae gan y Llywodraethwyr Bolisi Gwisg Ysgol. Nid yw gwisg ysgol ffurfiol yn orfodol ond mae'r Corff Llywodraethol yn annog defnydd o'r wisg ffurfiol. Mae'r wisg yn cynnwys trowsus neu sgert addas, crys polo coch a siwmper lwyd yr ysgol. Mae angen archebu'r wisg ysgol oddi ar wefan constructiv:http://www.constructiv.co.uk/shop/categories.asp

Darperir bagiau darllen a photeli dŵr i bob disgybl yn rhad ac am ddim ar ddechrau'r Cyfnod Sylfaen ac yna eto ar ddechrau CA2. Dylid labelu pob dilledyn yn syth. Disgwylir i bob disgybl wisgo'n lân a thaclus. Gofynnir hefyd i bob rhiant ddarparu crys T a siorts ar gyfer gwersi Ymarfer Corff, ynghyd a phâr o esgidiau glaw ar gyfer Y Cyfnod Sylfaen.

## Cymdeithas Rhieni ac Athrawon

Mae'r gymdeithas hon yn gymdeithas gref a bywiog. Cynhelir Cyfarfod Blynyddol ym mis Medi bob blwyddyn, ac fe gynhelir cyfarfodydd cyson i drefnu gweithgareddau. Dewisir cynrychiolydd ar gyfer pob blwyddyn / neu ddosbarth. Pwrpas y Gymdeithas yw ceisio gwneud y rhieni yn ymwybodol o amcanion yr ysgol a hefyd codi arian tuag at goffrau'r ysgol. Hyd yma codwyd symiau mawr o arian, gan gynnwys cyllid i brynu byrddau gwyn rhyngweithiol, cyfrifiaduron, adnoddau llythrennedd ac offer chwaraeon.

## TREFNIADAU GWNEUD CWYNION

OS OES GENNYCH UNRHYW BRYDERON AM ADDDYSG EICH PLENTYN YNA CYSYLLTWCH Â'R PENNAETH CYNORTHWYOL AR UNWAITH

GWNEIR POB YMDRECH I DREFNU APWYNTIAD CYN GYNTED Â PHOSIBL.



## School Uniform

The Governors have a school uniform Policy. A formal uniform is not compulsory but the Governing Body encourages the wearing of the formal uniform. The uniform consists of suitable trousers or skirt, the school red polo shirt and grey sweater. It is necessary to order the school uniform from constructiv website: http://www.constructiv.co.uk/shop/categories.asp

Reading bags and water bottles are provided free for all pupils at the start the Foundation Phase and again at the beginning of Key Stage 2. Please label each garment immediately. Each pupil is expected to be dressed in clean, tidy clothes. All parents are also asked to provide a t-shirt and shorts for PE lessons, along with a pair of wellies for the Foundation Phase.

## Parent Teacher Association

This association is a strong and vibrant group. An annual meeting is held in September each year, and regular meetings are held to arrange activities. A representative is chosen for each year or class. The purpose of the Association is to help to make parents aware of the school's objectives and to raise funds towards the school coffers. Large sums of money have been raised to date, including funds to buy interactive whiteboards, computers, literacy resources and a variety of sporting equipment.

## COMPLAINTS PROCEDURE

IF YOU HAVE ANY CONCERNS ABOUT YOUR CHILD'S LEARNING THEN PLEASE CONTACT THE ASSISTANT HEADTEACHER IMMEDIATELY.

EVERY EFFORT WILL BE MADE TO ARRANGE AN EARLY APPOINTMENT

# 54 Gwybodaeth



## Y Tîm Rheoli

**Pennaeth**: Mr Dafydd Jones

**Pennaeth Cynorthwyol**: Mrs Haf ap Robert

**Arweinydd Llythrennedd**: Mrs Manon Holt

**Arweinydd Rhifedd a Mathemateg**:

Mrs Gwenan Phillips

**Athrawes yng Ngofal Y Gelli & ALNCO**:

Miss Rhiannon Law

**Arweinydd CA2**: Mr Alwyn Jones

**Arweinydd Y Cyfnod Sylfaen**: Miss Iona Davies

## Athrawon Dosbarth

**Y Ffrwd Gymraeg:**

Mrs Manon Holt

Mrs Ann Eleri Thomas

Mrs Gwenan Phillips

Mrs Angharad Williams

Miss Iona Davies

**Y Ffrwd Saesneg:**

Mr Alwyn Jones

Mrs Lilian Stokes

Miss Mary Griffiths

## Athrawon CPA (Cyfnod Paratoi ac Asesu)

Miss Lois Evans & Mr Rob Goodsell

## Athrawon Cyflenwi

Mrs Lisa Rowlands, Mr Rob Goodsell, Mr Huw Williams & Mrs Bethan Bleddyn

## Cynorthwy-wyr Dysgu:

Mrs Meinir Evans

Mrs Marian Breese-Griffiths

Mrs Carwen Francis

Mrs Holly Davidson

Mrs Alison Kohler

Mrs Gwenan Cottam

Mrs Siân Speake

Mrs Nerys Zjalic

Mrs Carol Lewis

Miss Julie Price

Mrs Claire Jenkins - Cefnogaeth Darllen / Sillafu

## Swyddfa:

Mrs Eleri Jones

# Information





## Senior Leadership Team

**Headteacher**: Mr Dafydd Jones

**Assistant Headteacher**: Mrs Haf ap Robert

**Literacy Leader**: Mrs Manon Holt

**Numeracy & Mathematics Leader**:

Mrs Gwenan Phillips

**Teacher in Charge of the Specialist Centre & ALNCO**:

Miss Rhiannon Law

**KS2 Leader**: Mr Alwyn Jones

**Foundation Phase Leader**: Miss Iona Davies

**Class Teachers**

| **Welsh Stream:** | **English Stream :** |
|---|---|
| Mrs Manon Holt | Mr Alwyn Jones |
| Mrs Ann Eleri Thomas | Mrs Lilian Stokes |
| Mrs Gwenan Phillips | Miss Mary Griffiths |
| Mrs Angharad Williams | |
| Miss Iona Davies | |

## PPA Teachers (Planning, Preparation & Assessment)

Mr Rob Goodsell & Miss Lois Evans

## Supply Teachers

Mrs Lisa Rowlands, Mr Rob Goodsell, Mr Huw Williams & Mrs Bethan Bleddyn

## Learning Support Assistants:

Mrs Meinir Evans, Mrs Marian Breese Griffiths

Mrs Carwen Francis

Mrs Holly Davidson

Mrs Alison Kohler

Mrs Gwenan Cottam

Mrs Sian Speake

Mrs Nerys Zjalic

Mrs Carol Lewis

Miss Julie Price

Mrs Claire Jenkins - Reading, Spelling and Writing Support

## Swyddfa

Mrs Eleri Jones

## Gwireddu Breuddwydion
## Beth yw Ysgol Bro Hyddgen i ni?



### Dyma nodau'r ysgol:

•Ysgol lle mae ethos Gymreig gadarn, a lle rydym yn datblygu i fod yn ddinasyddion byd-eang sy'n parchu pawb

*A school where there is a strong Welsh ethos, and where we develop to be global citizens who respect everyone*

•Ysgol lle rydym yn dysgu sgiliau i sicrhau dyfodol llwyddiannus i ni'n hunain

*A place where we learn the skills to enable us to have a successful future*

•Ysgol lle rydym oll yn sicrhau'r llwyddiant gorau

*A school where we all ensure the best level of success*

•Ysgol lle mae pawb yn gwrtais a charedig

*A school where everyone is kind and courteous to each other*

•Staff cadarn, cefnogol a charedig sy'n gweithio'n galed i sicrhau'r llwyddiannau gorau i bob dysgwr – yn academaidd ac yn all-gyrsiol

*Supportive and kind staff who work hard to ensure the best levels of success for all pupils – academically and in terms of your extra-curricular activities*

•Ysgol lle mae pawb yn awyddus i fanteisio ar bob cyfle, ac yn awyddus i lwyddo

*A school where everyone is eager to take advantage of all opportunities, and eager to succeed*

### *These are the aims of the school:*

## *Empowering Dreams*
## *What is Ysgol Bro Hyddgen to us?*



